**Astudiaeth Achos – Hawliau Plant – gwasanaeth gwarchod plant cofrestredig Katie Toogood a 'Too Good Tots'**

## Trosolwg o'r gwaith

Mae'r astudiaeth achos hon wedi cael ei chynhyrchu gan PACEY Cymru fel rhan o becyn hyfforddi ehangach ar hawliau plant yn y blynyddoedd cynnar gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

## Gwybodaeth am y lleoliad

Mae Katie Toogood wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant yn Rhondda Cynon Taf ers dros chwe blynedd, a'r enw mae hi'n ei ddefnyddio ar gyfer ei busnes yw *Too Good Tots*.  Mae hi'n gweithio gyda chynorthwy-ydd ac yn gofalu am gyfanswm o 18 o blant ar wahanol adegau o'r wythnos. Mae'r plant yn ei gofal yn amrywio o 18 mis i 10 mlwydd oed.

## Gwreiddio hawliau plant yn y lleoliad

Cwblhaodd Katie uned ar hawliau plant fel rhan o'i gradd blynyddoedd cynnar, ac mae'n parhau i ddarllen ac ymchwilio i'r maes. Mae Katie wedi bod yn ymwybodol iawn o'r hawliau sydd gan blant, ac mae'n adlewyrchu hynny ym mholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad i fodloni'r gofynion rheoliadol. Mae hyn yn cynnal addewid y lleoliad i bob plentyn a theulu unigol y byddan nhw'n sicrhau eu bod yn gwireddu hawliau plant ac yn diwallu eu hanghenion o dan CCUHP, ac mai lles y plant yw'r flaenoriaeth uchaf.

## Gweithio gyda phlant iau

Mae'r lleoliad yn sicrhau ei fod yn defnyddio dulliau oed-briodol i glywed barn plant a meithrin eu gwybodaeth ynghylch hawliau plant.

Mae'r plant iau yn cwrdd bob dydd ac yn archwilio amser cylch gyda'i gilydd. Maen nhw'n trafod ac yn defnyddio adnoddau sy'n cael eu harddangos yn y lleoliad i nodi emosiynau, meddyliau a theimladau. Ymhlith y gweithgareddau pellach mae 'tedi tot' wedi'i lamineiddio, y mae modd rhoi sawl plastr arno a'u tynnu i ffwrdd. Gall y plant siarad am unrhyw beth sy'n eu brifo nhw, a rhannu storïau.












Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio pypedau i annog y plant i siarad am deimladau ac emosiynau. Mae hynny'n helpu'r plant i ddeall eu teimladau eu hunain ac empathi at eraill, ac yn ei dro yn eu helpu i ddatblygu gwydnwch.

Yn ogystal â hyn gall y plant ddefnyddio 'ffon newyddion' sy'n cael ei basio o amgylch y grŵp yn ystod amser cylch. Eto mae hyn yn annog plant i fyfyrio ar y pethau sy'n digwydd yn eu bywydau a'u rhannu ag eraill.

*'Ystyr cyfranogiad yw gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn'* Y Ffordd Gywir, Comisiynydd Plant Cymru: 2017

## Gweithio gyda phlant hŷn





O ran cefnogi plant hŷn mae'r lleoliad wedi cyflwyno teclyn 'pit and peek' i helpu i annog sgyrsiau. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r plant drafod cyflawniadau, adegau difyr neu anghytundeb gyda'i gilydd. Mae modd ei ddefnyddio i gefnogi plant i roi cyngor ac arweiniad i eraill, er enghraifft, ynghylch y ffordd orau o ddelio â sefyllfa, fel siarad ag athro wrth ddychwelyd i'r ysgol.

## Llais y plentyn

Mae llais y plentyn yn bwysig iawn yn y lleoliad. Mae'r plant yn rhan o benderfyniadau a wneir, gan gynnwys prydau bwyd a syniadau byrbryd, a dewis gweithgareddau. Mae gan y lleoliadau arwyddion gweledol i atgoffa'r plant am eu hawliau ac i helpu i feithrin eu dealltwriaeth ohonynt.

I gefnogi plant di-eiriau mae'r lleoliad wedi cyflwyno adnodd wedi'i lamineiddio gyda delweddau o drefn ddyddiol arferol i'w helpu i gyfleu eu hanghenion hanfodol i eraill heb ddefnyddio geiriau. Mae hyn yn helpu i dawelu a llonyddu'r plentyn mewn modd cyfannol ac yn helpu'r plant eraill i gyfathrebu â nhw.

*'Mae cydraddoldeb yn golygu trin pob plentyn yn deg, a rhoi cyfleoedd ac adnoddau iddyn nhw yn ôl eu hanghenion, mewn modd cyfartal ag eraill, gan sicrhau eu bod yn gallu datblygu hyd eithaf eu potensial'* Y Ffordd Gywir, Comisiynydd Plant Cymru: 2017




Esboniodd Katie fod y plant yn aml yn ymddiddori'n fawr wrth ddysgu am eu hawliau y tro cyntaf. Maen nhw hefyd yn mwynhau dysgu am fywydau plant yn y gwledydd sy'n datblygu, lle mae iechyd ac amwynderau'n fwy heriol na'u profiadau nhw o bosib. Mae'r plant yn dod yn ymwybodol o'r hyn sydd ganddyn nhw, ac yn dysgu teimlo empathi a

gwerthfawrogi bod dim rhaid iddyn nhw gerdded milltiroedd i nôl dŵr, a bod dŵr glân ar gael iddyn nhw unrhyw bryd.

Rhannodd Katie mai '*Addysgu plant am bwysigrwydd eu llais yw erthygl bwysicaf CCUHP yn fy marn i. Mae'n eu hannog nhw i godi llais, i fynegi eu hunain, i helpu eraill ac yn bennaf oll yn dysgu rheolaeth ar eu meddwl a'u corff iddyn nhw*.'




## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â PACEY Cymru trwy e-bostio paceycymru@pacey.org.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch hawliau plant mewn perthynas â gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ar gael ar ein gwefan www.pacey.org.uk